
## A. Asesiad o’r Effaith at Hawliau Plant




### 1. Amcanion y polisi

Ar 9 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Vaughan Gething, flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Senedd. Roedd hyn yn cynnwys Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru) (y Bil) a fydd yn sicrhau mwy o ddiogelwch i’r bobl sy’n byw yn eu cysgod.

Prif amcan y Bil yw sicrhau nad yw tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae’r darpariaethau yn y Bil yn mynd i’r afael â thomenni nas defnyddir etifeddol drwy greu cyfundrefn reoli tomenni nas defnyddir newydd, gyda’r nod o sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bwriad y polisi yw lleihau’r tebygolrwydd o dirlithriad drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer rheoleiddio, rheoli, ac archwilio tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir. Bydd hyn yn creu amgylchedd mwy diogel i gymunedau a seilwaith sydd wedi’u lleoli’n agos i domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir ledled Cymru.

Mae’r duedd o effeithiau newid hinsawdd sy’n peri pryder yn golygu y disgwylir i dirlithriadau ddigwydd yn fwy aml, a gall hyn achosi difrod sylweddol i gymunedau, seilwaith allweddol, a’r amgylchedd. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar les dinasyddion gan gynnwys plant drwy leihau'r tebygolrwydd o’r

canlyniadau niweidiol sy'n gysylltiedig â thirlithriad megis: colli bywyd; anaf; problemau iechyd meddwl tymor; difrod i dai, ysgolion, a chanolfannau iechyd; amharu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygredd a dinistrio'r amgylchedd.

Ymgynghorwyd ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil ym Mhapur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo (Cymru) | LLYW.CYMRU, a gynhaliwyd rhwng 12 Mai 2022 a 4 Awst 2022.

Bydd y Bil yn sefydlu corff newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) ac mae'n rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac, wedi hynny, categoreiddio tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir, swyddogaethau monitro a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ar dir, lle mae'n ystyried bod gweithrediadau o'r fath yn angenrheidiol i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni glo neu domenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir, neu i sefydlogi tomenni glo neu domenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir neu eu hatal rhag troi'n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol. Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni glo a thommeni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir a gall roi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 12 o'r CCUHP yn rhoi'r hawl i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Comisiynwyd Plant yng Nghymru i gyflwyno nifer o ddigwyddiadau ymgynghori gyda'r nod o gasglu barn pobl ifanc 14-16 oed ar y darpariaethau yn y Bil (gweler Atodiad A sydd wedi'i atodi). Cyfyngwyd yr ymgynghoriad i'r amrediad oedran hwn oherwydd y posibilrwydd y gallai hanes trychinebau tomenni glo beri trawma, oherwydd bod tomenni glo etifeddol yn bodoli o hyd mewn cymunedau a'r posibilrwydd y gallai pryderon ynghylch diogelu a llesiant gael eu codi wrth gynnwys plant iau yn y prosiect.

Hefyd, cyflwynodd swyddogion gynigion y Papur Gwyn i'r Grŵp Gweithredu Hawliau Plant ar 23 Mehefin 2022, gan ddefnyddio eu harbenigedd i fyfyrio ar sut y mae'r cynigion yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Dywedodd y grŵp eu bod yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar effaith y cynigion hyn ar blant a phobl ifanc

Bydd y darpariaethau yn y Bil o fudd i blant a phobl ifanc sy'n byw yn agos i domenni nas defnyddir, oherwydd prif amcan yr Awdurdod a sefydlwyd gan y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.

Mae ein gwaith dadansoddi o leoliadau tomenni glo nas defnyddir yn dangos bod tua 85% o'r holl domenni glo nas defnyddir wedi'u lleoli yng nghymoedd y De, sy'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (llyw.cymru)).

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar amddifadedd ac felly tlodi plant yn yr ardaloedd hynny, er enghraifft aelwydydd incwm isel, diweithdra, diffyg addysg a sgiliau yn yr aelwyd a chostau byw cynyddol. Mae plant yn yr ardaloedd hynny'n aml yn ystyried "y pwll" yn rhywle i chwarae ac yn rhywbeth sy'n rhan o atgofion y teulu, heb fod yn ymwybodol o'r risgiau y gallai tomen nas defnyddir eu peri.

Rydym o'r farn y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch pob dinesydd, y rhai sydd â nodwedd warchodedig neu sy'n rhan o grŵp lleiafrifol, a phawb arall fel ei gilydd, drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig megis colli bywyd; anaf; pryderon iechyd corfforol ac iechyd meddwl tymor byr a hirdymor; difrod i dai, ysgolion, a chanolfannau iechyd; amharu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygredd a dinistrio'r amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu menter awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis beicio sgrialu, efallai bod rhai plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt, a all gyfrannu at ansefydlogrwydd tomenni, gan felly gynyddu'r risgiau i gymunedau a seilwaith sy'n agos i'r tomenni nas defnyddir. Yn ddiweddar, mae Rhondda Cynon Taf wedi lansio ymgyrch yn erbyn beiciau sgrialu ar domenni nas defnyddir ar ôl i'r heddlu alw ar y cyhoedd i roi gwybod am ddigwyddiadau, oherwydd gall cerbydau oddi ar y ffordd anghyfreithlon ddifrodi tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir a gall achosi tirlithriad[1]. Mae'r ymgyrch wedi cael ei chefnogi gan awdurdodau lleol eraill, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo.

- **Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.**

Fel yr amlinellir uchod, mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu mewn deddf cyfundrefn reoli newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir. Bydd y corff arbenigol newydd, yr Awdurdod, yn ymgysylltu â pherchnogion tomenni a thir yn eu cynghori a'u hannog i gyflawni eu cyfrifoldebau, ond bydd hefyd yn defnyddio ei bwerau i gamu i'r adwy lle

na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny neu le na fyddant yn gwneud hynny. Ni ddisgwylir i blant a phob ifanc fod yng nghategori perchennog tomen/tir.

Fodd bynnag, disgwylir y bydd plant a phobl ifanc yn elwa o weithredu cyfundrefn reoli effeithiol ar gyfer tomenni nas defnyddir, oherwydd gall monitro a chynnal a chadw leihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni a'r effeithiau y gallant eu cael ar gymunedau.

Fe wnaethom ymgysylltu â Phlant yng Nghymru i ymgynghori â phobl ifanc ar y Papur Gwyn. Roedd y digwyddiadau ymgynghori yn cynnwys gweithdy ar-lein i bobl ifanc a digwyddiad wyneb yn wyneb ar gyfer pobl ifanc 14–16 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd y digwyddiadau hyn yn fodd rhyngweithiol, dan arweiniad, i bobl ifanc ddod i wybod mwy am domenni, mynegi barn ar y darpariaethau yn y Bil ac awgrymu ffyrdd effeithiol o gyflwyno gwybodaeth am domenni, megis posteri mewn ysgolion. Fodd bynnag, awgrymodd y bobl ifanc hefyd, er efallai bod rhywfaint o fudd mewn defnyddio codau QR a gwefan, gallent hefyd fod yn rhwystr i wybodaeth oherwydd diffyg gwasanaeth neu dlodi digidol ac anllythrennedd.

Hefyd, cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru gynigion y Papur Gwyn i'r Grŵp Gweithredu Hawliau Plant ar 23 Mehefin 2022, gan ddefnyddio eu harbenigedd i fyfyrio ar yr effaith bosibl ar blant a phobl ifanc.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- **Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r cymunedau y gallai tirlithriadau o domenni nas defnyddir effeithio arnynt. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer i reoleiddo, rheoli ac archwilio tomenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir, gyda'r nod o leihau tebygolrwydd tirlithriadau yn y dyfodol, a thrwy hynny ddiogelu cymunedau Cymru sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, a seilwaith sy'n agos i domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir.

Dangosodd ein digwyddiad ymgynghori â phobl ifanc gonsensws clir y dylid gwneud tomenni'n ddiogel er dyfodol ein cymunedau. Pan ofynnwyd "Ydych chi'n meddwl y dylai tomenni glo gael eu monitro a'u rheoli?" cytunodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithdy ar-lein fod hyn yn bwysig.

Fe wnaethant dynnu sylw at fanteision ychwanegol diogelu ac atal difrod pellach i'n hamgylchedd fel mantais allweddol arall o'r gyfundrefn arfaethedig. Roeddent yn awyddus i sicrhau y gellid defnyddio ardaloedd y tomenni mewn modd cynhyrchiol ond yn pryderu am bwy fyddai'n cael eu cyflogi i weithio yn y maes hwn a sut y byddent yn cael eu hariannu.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw agwedd gadarnhaol tuag at y cynigion i greu corff newydd i reoli a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

"mae pobl yn haeddu bod yn ddiogel a ddim gorfod poeni am dirlithriadau, llifogydd a llygredd" (person ifanc)

Fodd bynnag, roedd nifer yn teimlo bod angen mwy o waith i helpu i hysbysu pobl ifanc a chymunedau ynghylch tomenni nas defnyddir. Gyda hyn mewn golwg, cytunwyd bod creu cofrestr asedau o domenni nas defnyddir i'r cyhoedd yn gam cadarnhaol tuag at gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Daeth yr angen am ddogfennaeth sy'n glir ac yn hygyrch i'r amlwg fel thema gyson drwy gydol ein hymgynghoriadau â phobl ifanc.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo, amlygodd Plant yng Nghymru fod pobl ifanc o'r farn y mae pobl yn haeddu bod yn ddiogel a ddim gorfod poeni am dirlithriadau, llifogydd a llygredd. Fe wnaeth pobl ifanc hefyd rannu mewnwelediadau a syniadau gan gynnwys gwell ymdriniaeth, buddsoddiad hirdymor a lleol a mesurau i atal peryglon. Yn ogystal, cydnabuwyd bod mabwysiadu darpariaethau'r Bil hefyd yn gyfle i gynyddu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylcheddau y mae plant a phobl ifanc yn byw ynddynt.

- **Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y mynnir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Opsiynol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.**

Mae'r cynigion yn ymwneud yn uniongyrchol ag Erthyglau 6,12,17,24,27 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mewn perthynas â'r rhain, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol o'n cynigion ar hawliau plant o dan CCUHP.

| **Erthyglau CCUHP neu Brotocol Opsiynol**[2] | **Gwella (X)** | **Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 6 - Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.* | x | | Nod trosfwaol y Bil yw diogelu lles dynol, cymunedau a seilwaith allweddol drwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| *Erthygl 12 - Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod ei farn yn cael ei hystyried a'i chymryd o ddifri. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau tai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd.* | x | | Gan weithio gyda Plant yng Nghymru rydym wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gan sicrhau eu bod wedi cael cyfle i fynegi eu barn am y cynigion yn y Papur Gwyn. Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn cytuno â'n dull polisi. |
| *Erthygl 17 - Mae gan bob plentyn yr hawl i wybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall. Rhaid i lywodraethau helpu i amddiffyn plant rhag deunyddiau a allai eu niweidio.* | x | | Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio cofrestr electronig o domenni nas defnyddir yng Nghymru sy'n peri bygythiad i les dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd neu a allai beri bygythiad pe baent yn troi'n ansefydlog. Bydd y gofrestr yn llywio'r dull a ddefnyddir i wella rheoli risg a gwneud penderfyniadau ledled Cymru mewn modd tryloyw. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y gofrestr electronig, a fydd yn cynnwys mapiau a mathau eraill o wybodaeth sy'n berthnasol i'r domen. Bydd hyn yn helpu i hybu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hyder y cyhoedd drwy gael mynediad at wybodaeth.<br><br>Ar ôl cyflwyno'r Bil, bydd crynodeb byr o'r Bil gyda'r nodau a'r amcanion, yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil. |
| *Erthygl 24 - Mae hawl gan bob plentyn i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg yn ymwneud ag iechyd a llesiant er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cadw'n iach. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.* | x | | Nod trosfwaol y Bil yw diogelu lles dynol, cymunedau a seilwaith allweddol drwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.<br><br>Bydd y gyfundrefn hefyd yn atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd ac felly bydd yn osgoi tirlithriadau a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a phryder mewn plant a phobl ifanc. Yn ogystal, roedd ffactor straen a nodwyd gan adroddiad adfer ar ôl tirlithriadau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys straen yn ymwneud ag addysg ac ysgol, megis colli cyfleusterau addysg a cholli cymdeithasu sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol |
| *Erthygl 27 - Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol a chynnal ei ddatblygiad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na* | x | | Prif amcan yr Awdurdod a gyflwynwyd gan y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *allant fforddio darparu hyn.* | | | |
| *Erthygl 29 - Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn. Rhaid iddi annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd* | x | | Yn dilyn ymgynghori â phobl ifanc, cydnabuwyd yr angen i wybodaeth am domenni nas defnyddir fod ar gael yn eang a chael ei chyflwyno'n glir. Roeddent yn awyddus i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses yn ymwneud â thomenni glo a'r 'Papur gwyn diogelwch tomenni glo', a hoffent wybod mwy. Cydnabuwyd hefyd bod mabwysiadu darpariaethau'r Bil yn gyfle i gynyddu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylcheddau y mae plant a phobl ifanc yn byw ynddynt.<br><br>Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi crynodeb byr o'r Bil gyda'r nodau a'r amcanion, yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio cofrestr electronig o domenni nas defnyddir yng Nghymru sy'n peri bygythiad i les dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd neu a allai beri bygythiad pe baent yn troi'n ansefydlog.  Bydd y gofrestr yn llywio'r dull a ddefnyddir i wella rheoli risg a gwneud penderfyniadau ledled Cymru mewn modd tryloyw. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y gofrestr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | electronig, a fydd yn cynnwys mapiau a mathau eraill o wybodaeth sy'n berthnasol i'r domen. Bydd hyn yn helpu i hybu hyder y cyhoedd drwy gael mynediad at wybodaeth. Bydd y gofrestr electronig yn cael ei datblygu i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad ati. |

**4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogion**

Bydd effaith y cynigion ar hawliau plant yn cael ei hymgorffori yng nghyngor gweinidogion. Bydd hyn yn sicrhau bod lles a hawliau plant wedi cael eu hystyried yn llawn, a bod unrhyw faterion a nodwyd yn cael sylw.

**5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

- **Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut fyddwch yn eu hysbysu o'r canlyniad?**

Roedd y Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo yn gofyn am farn yr holl randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gyflwyno nifer o ddigwyddiadau wedi'u targedu, o gyfarfodydd i ddigwyddiadau ymgynghori a gynlluniwyd yn bwrpasol ar gyfer pobl ifanc. Cynhaliwyd un gweithdy ar-lein yn benodol i geisio barn a dealltwriaeth gan bobl ifanc a chyhoeddwyd adroddiad gan Blant yng Nghymru yn cynnwys barn y cyfranogwyr.

Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r papur ymgynghori ar 9 Tachwedd 2022. Yn ogystal, cafwyd ymateb manwl gan Weinidogion Cymru i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 'Reoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru' ar 22 Mawrth 2023. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith hefyd yn destun ymgynghoriad, a geisiodd farn ar yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i sicrhau bod pobl sy'n byw ac yn gweithio ger tomenni yn teimlo'n saff ac yn ddiogel.

Gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan bobl ifanc yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, ar ôl cyflwyno'r Bil, byddwn yn darparu crynodeb byr o'r Bil gyda'r nodau a'r amcanion, yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil.

**Monitro ac Adolygu**

- **Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu ei weithredu?**

  Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi na'i weithredu  Bydd cyfundrefn reoli gadarn i fynd i'r afael â thomenni nas defnyddir etifeddol yn creu amgylchedd mwy diogel i bawb sy'n byw neu'n gweithio'n agos i domenni nas defnyddir ledled Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

  Yn dilyn ymgynghori â phobl ifanc, cydnabuwyd yr angen i wybodaeth am domenni nas defnyddir fod ar gael yn eang a chael ei chyflwyno'n glir. Bydd y gofrestr electronig yn cael ei datblygu i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad ati.

  Bydd asesiadau effaith pellach yn cael eu cynnal fel y bo'n briodol maes o law pan fydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei drafftio yn manylu ar natur uniongyrchol gwaith yr Awdurdod. Bydd yr is-ddeddfwriaeth hon yn destun ymgynghoriad, bydd cyfleoedd i ymgysylltu'n llawn â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth i'r polisi gael ei ddatblygu.  Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau yn y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.

## Atodiad 1 Adroddiad Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

***Awst 2022***

### Pwrpas yr Adroddiad

Yn ystod mis Gorffennaf 2022, gofynnodd cydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru am ymgynghoriad â Phlant a Phobl Ifanc ar y 'Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo'. Nod yr ymgynghoriad tomenni glo oedd casglu barn plant a phobl ifanc mewn perthynas â'r papur gwyn tomenni glo yn yr ardal y maent yn byw ac yn preswylio ynddi. Lluniodd tîm Cymru Ifanc gynllun i ymgynghori â phobl ifanc ac adrodd yn ôl ar y prif ganfyddiadau yn ystod mis Awst 2022.

### Cefndir

Mae [dros] 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, wedi'u hetifeddu o'r diwydiant mwyngloddio.  Mae llawer o'r tomenni hyn wedi'u lleoli'n agos i gymunedau, ffyrdd, rheilffyrdd yn ogystal â safleoedd hanesyddol a chynefinoedd dynodedig.  Mae digwyddiadau diweddar megis y tirlithriad yn Nhylorstown yn 2020, yn dangos yr effaith y gall stormydd a glaw trwm ei chael ar y tomenni hyn.  Mae amcangyfrifon presennol yn awgrymu y gallai newid hinsawdd gael effaith ar seilwaith mwyngloddio etifeddol oherwydd y cynnydd mewn glaw a ragwelir.

Mae 85% o'r tomenni yn rhanbarth Cymoedd y De, sy'n cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Hoffai Llywodraeth Cymru (LlC) gyflwyno

deddfwriaeth newydd mewn perthynas â'r mater hwn i sicrhau bod y tomenni yn cael eu rheoli'n gywir ac yn bwysicach fyth yn ddiogel.

Cyhoeddodd LlC bapur gwyn ar 12 Mai o'r enw 'Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo', sy'n cynnwys cynigion ar gyfer prif elfennau'r gyfundrefn reoli newydd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn sut y dylid rheoli tomenni glo, gan gynnwys y rhai sy'n byw yn y cymunedau sy'n agos i'r tomenni hyn.

Cynigiodd LlC i gyfundrefn reoli newydd gynnwys cyflwyno corff cyhoeddus newydd i oruchwylio'r gyfundrefn newydd a dull newydd o asesu a monitro tomenni. Nod y gyfundrefn newydd yw sicrhau cyfundrefn gyson a chymesur, a all helpu i leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol.

Trwy Cymru Ifanc, ymrwymodd LlC i gynnal digwyddiadau ymgynghori i bobl ifanc sy'n byw gerllaw, neu sydd â diddordeb yn y tomenni glo. Nod y sesiynau hyn oedd rhoi cyfle i bobl ifanc gael dweud eu dweud ar y cynigion.

### Dull a Methodoleg

Mae pob ymgynghoriad a gynhelir gan Cymru Ifanc yn cefnogi cyfranogiad ac yn galluogi plant a phobl ifanc i leisio eu barn a chael eu clywed, er mwyn llywio'r penderfyniadau a wneir a allai effeithio ar eu bywydau; ac mae CCUHP a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc yn sail i hyn oll.

<u>Diogelu</u>

Oherwydd y posibilrwydd y gallai hanes trychinebau tomenni glo beri trawma, y ffaith bod tomenni glo etifeddol yn bodoli o hyd mewn cymunedau, a'r posibilrwydd y gallai pryderon ynghylch diogelu a llesiant gael eu codi wrth gynnwys plant yn y prosiect, cytunwyd y byddem ond yn ymgynghori â nifer fach iawn o bobl ifanc mewn amgylchedd rheoledig lle gallem sicrhau cynnwys 'gwirio llesiant' y plant yn y sesiynau a darparu rhifau ffôn am gymorth os byddai'r bobl ifanc yn poeni am yr wybodaeth a ddysgwyd ganddynt am domenni glo. Fe wnaethom gytuno hefyd y byddem yn dewis pobl ifanc 14 oed neu'n hŷn lle bo hynny'n bosibl.

Cyflwynwyd y sesiynau ymgynghori ar domenni glo gan ddefnyddio cynllun strwythuredig (i'w weld yn yr atodiad); defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gydag arbenigedd hwyluswyr ein partneriaid i ymgysylltu â phobl ifanc ar y pwnc pwysig hwn a chyflwynwyd y sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cyflwynwyd dwy sesiwn wyneb yn wyneb ac un ar-lein.

<u>Sesiwn wyneb yn wyneb</u>

Cyflwynwyd y sesiwn wyneb yn wyneb yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yn ystod y sesiwn i bobl ifanc, disgrifiwyd hanes tomenni glo yn Ne Cymru, gan gynnwys disgrifio tomen lo, faint o domenni glo sydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a hanes y deddfau yn yr ardal sy'n ymwneud â'r tomenni. Wedyn, dangoswyd fideo

o’r digwyddiad yn Nhylorstown i’r bobl ifanc a chawsant drafodaeth ar newid hinsawdd a’r effaith y mae hyn yn ei chael ar y tomenni.

Rhoddwyd esboniad byr i’r bobl ifanc a oedd yn bresennol o’r gwahanol bartïon sy’n rhan o reoli tomenni glo a’r cysyniad o Awdurdod Goruchwylio. Wedyn, fe wnaeth y bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgaredd lle gofynnwyd iddynt fynd i wahanol rannau o’r ystafell wedi’u hamlygu, yn dibynnu ar eu teimladau/barn a’u hatebion mewn ymateb i gwestiynau; esboniwyd cynnwys pob cwestiwn iddynt hefyd i sicrhau dealltwriaeth.

Sesiwn ar-lein

Cafodd y sesiwn ar-lein ei strwythuro’n wahanol oherwydd ei natur rithwir a’r ffaith nad oedd modd cynnal gweithgarwch ymgysylltu corfforol. Rhannwyd cwestiynau a phwyntiau trafod gan ddefnyddio Jamfwrdd[3].

Yn debyg i’r sesiwn wyneb yn wyneb yng Nghastell-nedd Port Talbot, disgrifiwyd hanes tomenni glo yn Ne Cymru i’r bobl ifanc, gan gynnwys disgrifio tomen lo, faint o domenni glo sydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a hanes y deddfau yn yr ardal sy’n ymwneud â’r tomenni.

Rhoddwyd esboniad byr i’r bobl ifanc a oedd yn bresennol o’r gwahanol bartïon sy’n rhan o reoli tomenni glo a’r cysyniad o Awdurdod Goruchwylio. Rhoddwyd Jamfwrdd i'r bobl ifanc lle gofynnwyd cwestiynau.

Cwestiynau ymgynghori:

- Ydych chi’n meddwl y dylid monitro a rheoli tomenni glo?
- Pwy ydych chi’n meddwl dylai fod yn gyfrifol am wneud hyn?
- Beth yw eich barn chi am ein cynnig i greu Awdurdod Goruchwylio a fyddai'n sicrhau bod pobl broffesiynol yn gweithio i helpu i gadw tomenni'n ddiogel? Sut hoffech chi weld hyn yn gweithio?
- Ydych chi’n hoffi’r categorïau rydyn ni’n eu cynnig ar gyfer tomenni glo? Ydyn nhw’n hawdd i’w deall?
- Ydych chi’n meddwl ei bod hi’n syniad da cael gwybodaeth am domenni glo yng Nghymru i gyd mewn un lle? Sut hoffech chi weld hyn? Sut ydych chi’n meddwl y gallai hyn helpu?
- Beth ydych chi’n meddwl dylai ddigwydd i bobl os nad ydyn nhw'n dilyn y rheolau ar gyfer cadw tomenni glo yn ddiogel?
- Rydyn ni’n edrych i greu cofrestr o bobl sy’n gwybod sut i ofalu am domenni. Hoffech chi ddysgu sut i ofalu am domen fel swydd?

[3]Mae **Jamfwrdd** yn fwrdd gwyn rhyngweithiol digidol a ddatblygwyd gan Google sy’n caniatáu i fyfyrwyr ac addysgwyr gydweithio, creu a chyflwyno mewn amser real

Cwestiynau cloi

- Beth hoffech chi ei weld yn digwydd yn y dyfodol gyda'r tomenni yn eich ardal chi?
- Oes unrhyw beth nad ydyn ni wedi'i gynnwys yr hoffech chi ei godi?
- A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy - Beth yw'r ffordd orau i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi?

**Prif Ganfyddiadau**

Negeseuon allweddol o'r sesiwn yng Nghastell-nedd Port Talbot i bobl ifanc.

**Ydych chi'n meddwl y dylid monitro a rheoli tomenni glo?**

Cytunodd pob un o'r 6 person ifanc fod hyn yn bwysig.

**Ydych chi'n meddwl bod Awdurdod Goruchwylio yn syniad da?**

- Anghytunodd un person ifanc gan ddweud 'dylai'r awdurdodau sydd eisoes ar waith wneud hyn' – 'bydd gormod o oruchwylwyr nad ydyn nhw'n 'gwneud' dim byd mewn gwirionedd. Gormod o fiwrocratiaeth.'
- Roedd un person ifanc yn ansicr - yn meddwl ei fod yn syniad da ond bod angen bod yn ofalus i sicrhau nad yw pobl yn poeni gormod am domenni glo.
- Cytunodd pedwar person ifanc ei fod yn syniad da – roedd un person ifanc yn benodol yn anghytuno gyda'r safbwynt uchod, 'dwi ddim yn meddwl dylwn i danbrisio pwysigrwydd y mater. Dylai pobl fod yn ymwybodol o'r peryglon.

**Ydych chi'n hoffi'r categorïau rydyn ni'n eu cynnig ?**

- Dywedodd tri pherson ifanc eu bod nhw - bod blaenoriaethu a bod yn fwy penodol yn beth da.
- Dywedodd tri pherson ifanc eu bod nhw'n ansicr / yn y canol –
- Dywedodd dau berson ifanc fod gormod o gategorïau, y gallent ddrysu pobl ac efallai nad oes eu hangen.
- Gofynnodd un person ifanc i'r swyddog LIC am y newidynnau a fyddai'n effeithio ar y categorïau a chafwyd sgwrs fer am hyn.

O ran y deunyddiau sy'n bresennol mewn tomenni glo, gofynnodd un person ifanc i'r swyddog LIC a oedd yn bresennol beth fyddai'n digwydd i'r deunydd? Yr ateb a roddwyd oedd 'mae'n dibynnu ar y tomenni glo penodol' a rhoddwyd enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd mewn gwahanol wledydd, e.e. yn Ffrainc mae rhai ohonyn nhw wedi cael eu defnyddio mewn cerfluniau. Roedd y Bobl Ifanc o'r farn bod hyn yn syniad da.

**Ydy'r categorïau yn hawdd i'w deall?**

- Dywedodd chwe pherson ifanc 'Ydyn.'
- *Roedd angen esboniad o un o'r elfennau ar un o'r bobl ifanc cyn iddynt gytuno eu bod nhw'n hawdd i'w ddeall.*

Mewn perthynas â'r esboniad, awgrymodd person ifanc arall y dylai fod arwyddion ger pob tomen lo gyda gwybodaeth am y domen lo, ei chategori a beth mae hyn yn ei olygu. Dylai fod cod QR hefyd, sy'n rhoi mwy o wybodaeth i'r rhai sydd am wybod mwy.

**Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da i'r holl wybodaeth fod mewn un lle?**

Roedd pob un o'r bobl ifanc a oedd yn bresennol yn cytuno â hyn ac yn parhau i bwysleisio'r defnydd o godau QR ger pob tomen lo.

Soniodd y bobl ifanc hefyd am ychwanegu gwahanol adnoddau i helpu i hysbysu ac addysgu'r gymuned, megis posteri y gellid eu dangos mewn ysgolion; dywedodd un person ifanc nad oeddent yn ymwybodol o domenni glo cyn y sesiwn. Soniodd person ifanc arall fod angen mwy o luniau a gwybodaeth i roi rhybudd digonol ynghylch tomenni Categori D/1.

Soniodd y bobl ifanc hefyd y gallai gwefan a chodau QR fod yn rhwystr oherwydd diffyg gwasanaeth neu dlodi digidol ac anllythrennedd. Felly, mae angen adnoddau ychwanegol megis posteri ac arwyddion o amgylch y pyllau er mwyn sicrhau dangos gwybodaeth berthnasol cyn bod rhywun yn mynd i mewn i domen.

**Byddai LIC yn hoffi creu cofrestr o bobl sy'n gwybod sut i ofalu am domenni. Hoffech chi ddysgu sut i ofalu am domen?**

Dywedodd pob un o'r bobl ifanc fod y gofrestr yn syniad da.

Dywedodd tri pherson ifanc na hoffent.

Dywedodd un person ifanc y byddent yn poeni'n arw am drychineb yn digwydd pan oeddent yn mynd o gwmpas eu gwaith – a chael y bai pe bai hynny'n digwydd, yn enwedig ar ôl Aberfan.

Dywedodd dau berson ifanc eu bod yn ansicr / yn y canol. Roeddent am danlinellu pwysigrwydd hyfforddiant hyd yn oed i'r rhai nad ydynt yn gwneud hyn fel rhan o swydd - efallai i'r rhai a wnelo â thomenni glo ond nad yw eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â nhw. Beth mae pobl yn ei wneud mewn sefyllfaoedd lle mae gwastraff yn llithro i lawr o domen lo?

Dywedodd un person ifanc yr hoffent. Byddent am fod yn gwbl barod pe bai rhywbeth yn digwydd i helpu i leihau risg digwyddiad.

**Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn gofalu am domenni glo?**

Archwilwyr, landlordiaid, y Llywodraeth, perchnogion ystadau/busnesau, pobl alluog, pobl y mae ganddynt amser rhydd, grŵp/parti newydd [wrth drafod ymhellach, roedd y person ifanc hwn yn cyfeirio at yr Awdurdod Goruchwylio]

Landlordiaid, gweithwyr proffesiynol, LlC, llywodraeth y DU, llywodraeth leol, perchnogion eiddo tirol, gwirfoddolwyr, y gymuned leol, cwmnïau sy'n cynhyrchu gwastraff, archwilwyr, pobl natur.

LlC, yr awdurdod lleol, perchnogion tir, unrhyw un sydd â diddordeb - sifiliaid hyddysg, gweithwyr proffesiynol y diwydiant glo, cynghorau/llywodraeth genedlaethol.

Pobl sydd â digon o wybodaeth a phrofiad, arbenigwyr tomenni glo, aelodau dynodedig o'r llywodraeth, pobl sy'n byw ger tomenni glo, oedolion cyfrifol amyneddgar sy'n gallu delio â'r sefyllfaoedd hyn.

Y bwrdd glo, llywodraethau, cynghorau, perchnogion tir, awdurdodau

**Sut ydych chi'n meddwl y dylen nhw wneud hyn?**

"Dylen nhw archwilio'r tomenni am unrhyw newidiadau. Edrych ar y tywydd a sut mae'n effeithio ar y domen i gael gwybodaeth ar gyfer rhybuddion ac i baratoi. Hysbysu pobl amdanyn nhw, pa mor beryglus yw'r domen a'r hyn y gallant ei wneud i helpu. Gosod pob tomen mewn categori."

"Cael gwared arnyn nhw."

"Cynnal profion rheolaidd. Monitro'n agos. Hysbysu pobl leol o'r perygl. Gwybod pryd/sut i ddefnyddio offer addas i helpu'r tomenni glo?"

"Hysbysu pobl. Archwilio'r tomenni glo yn rheolaidd. Cadw'r ardal yn glir"

"Monitro ardaloedd a lleoliadau. Helpu gyda'r gwaith. Usage"

"Trwy edrych ar ôl nhw a chael gwared arnyn nhw ac addysgu pobl amdanyn nhw."

Trafodaeth gyffredinol – soniwyd am hysbysebu i sicrhau bod pobl yn gwybod am domenni glo. Targedu rhieni ac ysgolion i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i oedolion a phlant.

**Beth ddylai ddigwydd i bobl nad ydyn nhw'n dilyn y rheolau?**- Trafodaeth gyffredinol

Dylen nhw gael rhybuddion, i sicrhau bod nhw'n gwybod, wedyn dirwyon. Sawl cyfle i fynd drwy'r system cyn iddyn nhw fynd i'r carchar.

Roedd y bobl ifanc am danlinellu y dylai'r system hon o ddirwyon / amser yn y carchar gael ei rhoi ar waith <u>ar ôl</u> addysg a chodi ymwybyddiaeth. Gwnewch yn siŵr bod arwyddion ger y tomenni a fideos i'r rhai sydd ddim yn gallu darllen.

**Beth hoffech chi ei weld yn digwydd yn y dyfodol gyda'r tomenni yn eich ardal chi?**

Dywedodd y bobl ifanc y dylid cael gwared ar bob tomen ond roeddent yn ymwybodol y gallai hyn gymryd peth amser. Cyn gallu cael gwared arnyn nhw i gyd, mae'n bwysig

sicrhau eu monitro a'u rheoli'n dda oherwydd gall hyn leihau'r risg o ddigwyddiad yn sylweddol. Wedi dweud hynny, dylid lleihau nifer y tomenni risg uwch yn gyntaf a chytunodd y bobl ifanc y dylai targedau fod ar waith. A'r posibilrwydd o beidio â chael gwared ar domenni risg isel gan eu bod yn rhan o etifeddiaeth a hanes mwyngloddio yng Nghymru. Dylai fod amgueddfeydd sy'n canolbwyntio ar domenni glo, neu adrannau am domenni mewn amgueddfeydd am hanes ac etifeddiaeth mwyngloddio yng Nghymru. Awgrymodd gweithiwr ieuenctid a oedd yn bresennol yn y sesiwn y gellid defnyddio arwyddion o liwiau gwahanol i sicrhau bod yr arwyddion yn hawdd i'w deall o bellter o ran pa mor ddiogel neu anniogel y mae'r tomenni. Soniodd swyddog LIC yn y sesiwn fod prosiectau blaenorol mewn gwledydd eraill wedi ymgorffori tomenni glo mewn pethau eraill yn hytrach na chael gwared arnynt, e.e. gwinllannoedd, llwybrau beicio mynydd, ac ati. Roedd y bobl ifanc yn meddwl bod hyn yn syniad da, ond y dylem ganolbwyntio eto ar y tomenni risg uwch - gwneud y rhain yn ddiogel cyn gwneud defnydd gwahanol o domenni risg is.

Pan ofynnwyd i'r bobl ifanc a hoffent barhau i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf a chael eu hysbysu ymhellach, cytunodd pob un ac roeddent am wybod mwy.

<u>Negeseuon allweddol gan y bobl ifanc a'r rhai a oedd yn hwyluso'r sesiwn ar-lein.</u>

**Ydych chi'n meddwl y dylid monitro a rheoli tomenni glo?**

Rhannwyd nifer o safbwyntiau "mae pobl yn haeddu bod yn ddiogel a ddim gorfod poeni am dirlithriadau, llifogydd a llygredd" ( Person Ifanc).

**'Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn gyfrifol am wneud hyn?'**

Y consensws cyffredinol oedd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol, yn ogystal â llywodraeth y DU, y gymuned leol (gyda chefnogaeth yr Awdurdod lleol), ac y dylid ymgynghori â pherchnogion tir ar benderfyniadau.

**Beth yw eich barn chi am gynnig Llywodraeth Cymru i greu Awdurdod Goruchwylio a fyddai'n sicrhau bod pobl broffesiynol yn gweithio i helpu i gadw tomenni'n ddiogel?** Sut hoffech chi weld hyn yn gweithio?

Roedd y cyfranogwyr o'r farn ei fod yn syniad da ac yn bwysig, ac fel y dywedodd un person ifanc "cyn belled â'u bod yn dryloyw gyda'r cymunedau lleol a'r cyhoedd" ac ni ddylai unrhyw domen lo 'lithro drwy'r rhwyd.'

**Ydych chi'n hoffi'r categorïau rydyn ni'n eu cynnig ar gyfer tomenni glo?** Ydyn nhw'n hawdd i'w deall?

Roedd y cyfranogwyr o'r farn nad oedd hyn yn gyfeillgar i bobl ifanc a bod angen ei wneud yn fwy eglur - efallai fersiwn cyfeillgar i bobl ifanc; cynnwys allwedd i esbonio'r categorïau.

**Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da cael gwybodaeth am domenni glo yng Nghymru i gyd mewn un lle?** Sut hoffech chi weld hyn? Sut ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn helpu?

Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod hyn yn syniad da oherwydd gall pobl ddod o hyd i'r 'wybodaeth gywir mewn un lle', ond hefyd i sicrhau bod dogfennau hawdd eu deall ar gael fel bod pawb yn deall; cynnwys delweddau, crynodebau, sain a fideo; hefyd defnyddio gwahanol gyfryngau i gynnig "adnoddau gwahanol i bobl wahanol".

**'Beth ydych chi'n meddwl dylai ddigwydd i bobl os nad ydyn nhw'n dilyn y rheolau ar gyfer cadw tomenni glo yn ddiogel?'**

Dywedodd y cyfranogwyr na ddylid dirwyo yn y cam cyntaf; yn hytrach, dylid canolbwyntio ar addysgu, er enghraifft mewn ysgolion a chanolfannau cymunedol. Mae'n bosibl nad yw rhai pobl sy'n torri'r rheolau yn ymwybodol, felly mae'n bwysig addysgu a chodi ymwybyddiaeth yn gyntaf "Mae'n ymddangos mai ateb tymor byr yw dirwy ac nid yr unig opsiwn."

**'Mae Llywodraeth Cymru yn edrych i greu cofrestr o bobl sy'n gwybod sut i ofalu am domenni. Hoffech chi ddysgu sut i ofalu am domen fel swydd?**

Doedd y cyfranogwyr ddim eisiau'r swydd hon eu hunain ond yn cydnabod efallai y byddai pobl eraill "yn enwedig os yw'n rhywbeth sy'n effeithio arnyn nhw yn uniongyrchol." Dywedodd un cyfranogwr "mae'n dibynnu ar faint o gymorth a gewch gan y llywodraeth."

**'Beth hoffech chi ei weld yn digwydd yn y dyfodol gyda'r tomenni yn eich ardal chi?'**

Rhannwyd nifer o safbwyntiau gwerthfawr fan hyn gan gynnwys ymdrin yn well, buddsoddiad hirdymor a lleol, mesurau i atal peryglon.

**'Oes unrhyw beth nad ydyn ni wedi'i gynnwys yr hoffech chi ei godi?'**

Soniodd y cyfranogwyr am efallai edrych ar yr effeithiau cymdeithasol; y camau penodol a wneir gan LlC i gynnal tomenni glo.

**'A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy?  Beth yw'r ffordd orau i LC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi?'**

Roedd y cyfranogwyr am ddysgu mwy, gan awgrymu creu gwefan a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost i roi gwybodaeth a chadw mewn cysylltiad.

O ran safbwyntiau eraill, soniodd un person ifanc am godi glo a hunaniaeth a phwysigrwydd ystyried "tomenni glo yn rhan o'n treftadaeth a'n hanes" felly dylid ystyried safbwyntiau "y rhai yr effeithir arnynt mewn ardaloedd wrth edrych ar fesurau" ac y dylid "blaenoriaethu yn anad dim" llesiant a diogelwch pobl.

Roedd gan un person ifanc sy'n byw ger tomen lo lawer i'w ddweud a chymerodd lawer o amser i rannu ei safbwyntiau. Dywedwyd wrthynt fod croeso iddynt rannu'n helaeth yr hyn a drafodwyd oherwydd mae'n bwysig i LC wrando ar safbwyntiau'r bobl hynny sy'n byw mewn ardaloedd sydd â thomenni glo ac sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Bydd e-bost yn cael ei anfon at y bobl ifanc fel bod modd iddynt rannu unrhyw safbwyntiau pellach gyda LIC.

**Casgliad**

I gloi, yn gyffredinol nid oedd pobl ifanc yn ymwybodol o domenni glo yn Ne Cymru cyn mynychu'r sesiwn oni bai eu bod wedi'u heffeithio'n uniongyrchol. Gyda hynny, mae angen gwneud mwy o waith i helpu i hysbysu pobl ifanc a chymunedau ynghylch tomenni glo a rhoi gwybod iddynt am y categorïau penodol a'r risgiau gan ddefnyddio arwyddion ger tomenni glo ac adnoddau pellach mewn ysgolion a chymunedau megis posteri a defnyddio codau QR y gellir eu cysylltu â gwefan fel un man cyswllt.

Rhannwyd llawer o syniadau ynghylch rheoli'r tomenni glo a chynnig LIC, roedd y bobl ifanc yn hapus gyda hyn ond yn tanlinellu pwysigrwydd gwneud hyn a'i reoli mewn modd tryloyw. Nid oedd consensws clir o ran pwy ddylai gymryd rhan yn benodol, fodd bynnag, dylai fod yn ddull amlasiantaeth/diwydiant gan gynnwys Perchnogion y domen a LIC.

Cytunodd y bobl ifanc â'r categorïau gan dynnu sylw at bwysigrwydd nodi'r tomenni yn glir fel bod y cyhoedd yn ymwybodol ac y byddai hyn yn helpu i atal unrhyw ddigwyddiadau ar y tomenni glo.

Soniwyd am ddefnyddio tomenni glo yn well, megis cael gwared ar domenni glo risg uchel i atal perygl i'r cyhoedd. Fodd bynnag, cytunodd y bobl ifanc â'r syniad o ailddefnyddio tomenni glo ar gyfer gwahanol weithgareddau megis gwinllannoedd, llwybrau beicio mynydd, ac ati fel y mae gwledydd eraill wedi ei wneud. Fodd bynnag, fe wnaethant danlinellu y dylid canolbwyntio ar gael gwared ar domenni peryglus risg uchel yn gyntaf. Cytunodd y bobl ifanc y dylai targedau fod ar waith a gallai'r rhain helpu o bosibl wrth gael gwared ar domenni glo risg uchel a newid defnydd tomenni glo risg isel.

Dros y ddwy sesiwn, dywedodd y bobl ifanc yr hoffent dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses mewn perthynas â'r tomenni glo a'r 'Papur gwyn diogelwch tomenni glo' a hoffent wybod mwy. Gofynnwyd i bobl ifanc a hoffent gael eu diweddaru a'u hysbysu ymhellach, fodd bynnag teimlai'r cyfranogwyr nad yw'r papur yn gyfeillgar iawn i bobl ifanc a bod angen ei wneud yn gliriach - fersiwn sy'n gyfeillgar i bobl ifanc efallai; cynnwys allwedd i egluro'r categorïau.

Mae angen gwaith aml-genhedlaeth i sicrhau gwarchod etifeddiaeth a hanes codi glo yng Nghymru a'u rhannu gyda chenedlaethau'r dyfodol a soniodd y bobl ifanc am amgueddfeydd glofaol neu arddangosfeydd mewn amgueddfeydd presennol sy'n ymwneud â phyllau a thomenni glo.

Mae hwn wedi bod yn ddarn gwych o waith sydd wedi cyrraedd pobl ifanc lle mae tomenni glo yn gallu, ac wedi, cael effaith ar eu bywydau p'un a ydyn nhw'n ymwybodol ohoni ai peidio. A nawr eu bod yn ymwybodol, hoffent gymryd rhan ymhellach.

[redacted]

[redacted]

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

21 Windsor Place, Cardiff CF10 3BY
**21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY**
02920 342 434